# Dau actor yn arddangos crefft llwyfan ar ei orau


**Catherine Ayers a Steffan Donelly**

## THEATR

### Adolygiad Emyr Edwards

NID yn aml y cawn y cyfle i weld un o glasuron y theatr Gymraeg pan oedd hi ar ei llawn dwf. Daeth Cwmni Theatr Invertigo, cwmni proffesiynol ifanc, â'i chanolfan yn Llundain, i Theatr Chapter, Caerdydd, ar ôl teithio eisoes trwy Gymru, â'r ddrama 'Y Tŵr', gan Gwenlyn Parry.

Yn y rhaglen gwelir y gosodiad byr canlynol – "mewn brwydr rhwng nwyd a dicter, caiff clytwaith eu bywydau, real a dychmygol, ei ddatgelu." A dyma gnewyllyn y gwrthdaro sydd yn datblygu rhwng y ddau gymeriad, yn ŵr a gwraig, yn ystod rhediad y ddrama ddwys hon.Taith yw ysgerbwd y ddrama, taith garwrol a phriodasol rhwng y ddau.

Mae datblygiad y chwarae yn golygu rhediad y daith trwy adeiladwaith y tŵr, hynny yw, i fyny o ris i ris, hyd at y top. Dyma yw symbol o fywyd sydd yn rhoi siap i'r chwarae.

Y ddau actor sydd yn rhoi bywyd i'r ddau gymeriad yn y cynhyrchiad yma yw Catherine Ayers a Steffan Donelly. Wrth i'r ddau dyfu trwy lencyndod, canol oed a henaint, mae gan y ddau actor yma sialens go sylweddol, y naill i ddynodi merch ifanc, gwraig ganol oed sydd yn tyfu'n hen wraig, a'r llall i bortreadu llanc, gŵr canol oed sydd yn troi'n hen ŵr. Llwyddodd y ddau actor i bortreadu'r newid yma'n gelfydd tu hwnt yn ystod rhediad y chwarae.

Dangoswyd egni ieuenctid yn llawn asbri a chyffro, aeddfedrwydd canol oed yn frwdfrydig ac yn bwyllog, a henaint yn herciog ac yn simsan. Rhaid oedd i'r ddau actor bortreadu'r newid yma o fewn yr awr a hanner o berfformio. Llwyddodd y ddau i'n tywys ni, gyda chryn gyflenwad o sgiliau, drwy'r datblygiad gofynnol yma.

Nid yw'r cywasgu amser yma'n newydd i fyd y theatre, wrth gwrs. Yn The Long Christmas Dinner, gan Thornton Wilder, mae'r actorion yn gorfod wynebu'r sialens o bortreadu naw deg o flynyddoedd o fewn dwy awr o berfformio.

Sgil y dramodydd sydd yn bennaf gyfleu'r math yma o amseru ar lwyfan, ond rhaid dweud, yng nghyswllt y perfformiad yma gan Gwmni Invertigo, y mynegwyd llawer o gelfyddyd cyfarwyddo gan Aled Pedrick,wrth iddo drefnu'r defnydd o flociau gwyn yn llawn o offer a gwisgoedd addas ar gyfer y trawsnewid a wnaethpwyd gan yr actorion.

A'r blociau gwynion hyn, a osodwyd yma ac acw ar draws y llwyfan oedd cnewyllyn cyfansoddiad holl bwysig y grisiau a briodolwyd i ddringo'r ddau actor o ris i ris yn eu bywydau helbulus.

Portreadwyd yr helbul rhwng y ddau, y cyhuddo, y cecran a'r sbeit, trwy gydol y chwarae, gydag aeddfedrwydd sicr a arweiniai at naws y dieithrio sydd yn tyfu mor amlwg yn y ddrama rymus hon. Yr oedd pob ystum a symudiad, pob ymateb a herio wedi eu cyflawni â sgiliau o'r radd flaenaf gan Catherine Ayers a Steffan Donelly yn y cyflwyniad hwn. Rhaid oedd i'r ddau, yn eu gwrthdaro bortreadu nifer fawr o emosiynau cyffrous wrth iddynt geisio dal i gynnal eu bywydau brau. Gyda'r offer a'r wisg symlaf, heb angen chwarter awr o egwyl traddodiadol rhwng pob act i'w trawsnewid gyda cholur a phenglog yn eu haeddfedu, dyma oedd arddangos crefft llwyfan ar ei orau.

Yn gefn i Aled Pedrick, y cyfarwyddwr, rhoddwyd gofal artistig sicr gan amgylchfyd y tŵr ei hun gan y dylunydd Charley Fone, y goleuo gan Joe Price a'r gerddoriaeth synhwyrus gan Tom Recknell.

Dyma oedd cynhyrchiad arbennig o sgilgar a chyrhaeddgar. Bydd disgwyl drachefn i waith y cwmni yma yn y dyfodol.